AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 217 Chwefror – Mawrth 2019

Synod Cymru

# Gwyliedydd



# Croeso

Dyma lun y Parchg Ddr Trevor Hoggard a Mrs Cathie Hoggard gyda'r Parchg Jennie Hurd, yng nghapel Preswylfa, Cyffordd Llandudno. Daeth Trevor a Cathie i ymweld â Chylchdaith Cymru ym mis Tachwedd 2018 ac, os cawn gadarnhad y Gynhadledd Fethodistaidd yn yr haf, bydd Trevor yn Arolygydd Cylchdaith Cymru o fis Medi 2019 ymlaen. Bydd hefyd yn Arweinydd Ardal Dyffryn Conwy a gweinidog yn Ardal Dyffryn Clwyd. Bydd Jennie yn parhau yn Gadeirydd Synod Cymru. Ar hyn o bryd, mae Trevor, sy'n ieithydd ac yn weinidog ac arolygydd profiadol, yn gwasanaethu gyda'r Eglwys Fethodistaidd yn Seland Newydd. Teimlodd Dduw yn ei alw yn ôl i wasanaethu ym Mhrydain ac mae'n edrych ymlaen at ddod i fyw a gweithio yng Nghymru. Pob bendith arnoch, Trevor a Cathie, wrth i chi baratoi i symud.



## Rhoddion

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Glenys a Siencyn Griffiths, Llanharan | £5.00 |
| Dienw | £50.00 |
| Dienw | £100.00 |
| Eleri Hughes, Bangor | £ 15.00 |
| Margaret Griffith, Y Drenewydd | £ 25.00 |
| **Cyfanswm** | £195.00 |



## Hysbysiad

Cynhelir cyfarfod yn festri Horeb Bae Colwyn am 10am ar 6 Chwefror, gyda'r bwriad o sefydlu Grŵp Gofal Canser Cristnogol yn Ardal Conwy. Croeso cynnes. Am fanylion cysyllter ag Owie Morris, 07505 703110.

Dymuna teulu'r Parchedig Owen Evans ddiolch i bawb am y gefnogaeth a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd ac am y rhoddion tuag at Gymorth Cristnogol a Hospis Dewi Sant (uned leol yng Nghaergybi).

Bydd Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd am 6pm ar nos Sul, 3 Mawrth yn Ebeneser, Treuddyn. Bydd cyfarfodydd misol Cymdeithas Ebeneser yn ailddechrau nos Fercher, 6 Mawrth am 7pm ac mae croeso i bawb.

# Rhamant yn y *Gwyliedydd*

*gan Ramantydd*

#dwynwen #ffolant

Yr adeg yma o'r flwyddyn yn enwedig, mae rhai cylchgronau *[y rhai wrth erchwyn gwely Cadeirydd y Dalaith? Gol.]* yn troi eu sylw at ramant a materion y galon. Wel, fydd y *Gwyliedydd* ddim, na fydd, clywaf chwi'n dweud...fuasai'r *Gwyliedydd* ddim yn iselhau ei hun i drafod serch a materion ysgafn a gwamal o'r fath!

Ond nac anghofier fod ein hannwyl *Wyliedydd* yn meddu ar hanes hir ac anrhydeddus o ymdrin â phob math o faterion crefyddol, gwleidyddol, personol, anhraethol...*[digon o eiriau yn gorffen yn 'ol'! Gol.]*. Os bwriwn ein trem yn ôl – ac mae hynny'n ddigon rhwydd diolch i archif ddigidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru – fe ddaw'n eithaf amlwg fod serch y galon wedi bod yn bwnc amlwg ar dudalennau ein cyfnodolyn. Ambell dro, o leiaf.

Dyna rifyn 15 Chwefror 1899, er enghraifft. Dyma a welwn, yn yr orgraff wreiddiol:

*Ymddengys mai cwestiwn a gafodd ei drafod yn lled helaeth yn ddiweddar yn rhai o'r cylchgronau Seisonig ydyw, pryd y dylai merched briodi? Hyny yw, pa oedran? Credwn pe rhoddid y cwestiwn i'w ateb gan y merched eu hunain mai byr waith a wnelent ohono, trwy ddywedyd mai yr amser goreu i briodi ydyw pan geir "cynyg" fyddo ym mhob modd yn ddymunol, heb falio dim parthed oedran.*

Felly gellid dibynnu ar y merched i fod â synnwyr. Plus ça change.

Er hynny, nid yr un yw'r cymhlethdodau o oes i oes. Ar 8 Chwefror 1899 – ar y pryd wrth gwrs roedd y *Gwyliedydd* yn wythnosolyn – mae cofnod o ddadl a gynhaliwyd yng Nghymdeithas Ddiwylliadol Merthyr Tudful ar y pwnc *"A yw'n iawn i ieuenctyd o'r ddau ryw ymgyfeillachu heb gyflwyniad."* Ac meddai'r gohebydd: *"Trodd y fantol gyda'r ochr nacaol. Ond mi wn i trwy brofiad fod yr ochr gadarnhaol yn eithaf iawn!"* Hen dro na wyddom ragor o'r hanes.

Yn Ionawr 1903 wedyn, fe gafwyd dadl yng Nghymdeithas Ddiwylliadol Penygarnedd ar y pwnc *"Pa un ai Serch ai y Rheswm yw y gorau i ddewis cymar bywyd?"* Ac roedd y Gymdeithas yn unfrydol ar y mater! *"Pan roddwyd y mater i bleidlais cafwyd fod pawb am gymryd eu harwain gan serch"*. Ar yr un cwestiwn yn union yn Ebeneser Porthmadog, yn Rhagfyr yr un flwyddyn, mwyafrif o ddwy bleidlais yn unig oedd o ochr Serch.

Pa fodd bynnag y dewiswyd y cymar, yn naturiol byddai dathlu'r briodas yn achlysur llawen iawn. Fel yr eglura un awenydd y cyhoeddwyd ei waith ym 1895:

Mae'r holl rianod prydferth
A'r hyllion rai, os oes,
Yn edrych ar y diwrnod
Fel goraf ddydd eu hoes.

Bu llawer newid yn hanes Wesleaeth yng Nghymru, nid bob amser er gwell, ond mae'n rhaid i chi gyfaddef fod safon y farddoniaeth yn y *Gwyliedydd* wedi gwella'n sylweddol iawn.

Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 217**
**CHWEFROR – MAWRTH 2019**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk
**DYDDIAD CAU**
1 MAWRTH 2019

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr: Grisiau yn San Domingos de Bonaval, Santiago de Compostela, gan Ivan Soto

# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Amser cyffes! Mae gen i bleser euog, sef rhywbeth y byddaf yn ei fwynhau ond y tueddaf i gadw'n dawel amdano. Dyma'r gyffes: dwi'n hoffi darllen y math o gylchgronau moethus sy'n cael eu hanelu at ferched. Ofnadwy, dwi'n gwybod! Dwi'n tanysgrifio i un, ac yn prynu ambell un arall o dro i dro, pan fyddaf ar wyliau, er enghraifft. Mis Tachwedd diwethaf, mi feddyliais i, "O, mi hoffwn i gael rhifyn Nadolig *Good Housekeeping*." (Mae cylchgronau eraill ar gael.) Wnes i brynu copi, ddechrau mis Rhagfyr, a'i ddarllen, yma ac acw, drwy'r mis, gan sawru pob tudalen. Pleser euog, yn wir!

Yn y cylchgrawn roedd erthygl yn rhoi cyfle i ambell 'seleb' sôn am ei Nadolig, ac mi ges i fy nharo gan un tudalen yn arbennig. Cyfweliadau efo'r actores Meera Syal ac efo arweinydd 'The Kingdom Choir', Karen Gibson, oedd ar y tudalen, a'r ddwy yn talu teyrnged i'r Eglwys Fethodistaidd, er yn anfwriadol mae'n debyg. Soniodd Meera Syal am fynd i weld pantomeim ar drip Ysgol Sul pan oedd hi'n bump oed, ac yno y sylweddolodd ei bod hi am fod yn actores. Ddywedodd hi ddim, ond Ysgol Sul Eglwys Fethodistaidd yn Essington, ger Wolverhampton, oedd yr Ysgol Sul dan sylw. Soniodd Karen Gibson am ei hoff garol, 'Hark The Herald Angels Sing', ac mor bwysig iddi hi yw'r geiriau, 'Born to raise the sons of earth, born to give them second birth' – carol Charles Wesley, un o sylfaenwyr y mudiad Methodistaidd, wrth gwrs.

Wnes i dorri'r tudalen allan i'w gadw, gan feddwl, "Dyna pam dwi'n aelod o'r Eglwys Fethodistaidd – traddodiad Ysgolion Sul sy'n croesawu pawb, pwy bynnag ydynt, ac sy'n rhoi cyfleoedd iddynt gan newid eu bywydau, a bywydau pobl eraill trwyddynt, am byth, yn ogystal â diwinyddiaeth emynau sy'n sôn am gariad ac iachawdwriaeth Duw yng Nghrist i bawb, heb wahaniaeth, heb adael neb allan." Dywedodd y tudalen rywbeth wrthyf mewn modd cryf iawn am pam mae'r traddodiad Methodistaidd yn rhan o fy hunaniaeth innau, a rhoddais ddiolch i Dduw am gael f'atgoffa drwy'r cyfweliadau o ddylanwad da yr Eglwys Fethodistaidd dros y blynyddoedd.

Wrth i ni ganolbwyntio fel Synod Cymru eleni ar thema 'Bywyd Ysbrydol,' gan geisio datblygu ein ffydd a'n perthynas â Duw, tybed ble mae ein dylanwad ysbrydol yn ein hoes ni? Ble rydym ni'n halen a goleuni i'n cymdeithas heddiw, fel enwad, fel cynulleidfaoedd ac fel Cristnogion unigol? Mewn llawer o lefydd a ffyrdd, dwi'n siŵr, ond tybed a oes gennym ni alwad benodol i'n hoes ni, sydd, wedi'r cwbl, mor ecwmenaidd, diolch i Dduw?

Alla i ddim cofio, mewn hanner canrif ar y byd mawr crwn yma, byw mewn cyfnod a chymdeithas mor rhanedig. Mae gwahaniaethau gwleidyddol, economaidd, crefyddol a chymdeithasol wedi creu rhwygiadau sy'n bygwth natur ein bywyd efo'n gilydd. Mae'n anodd gweld ffordd ymlaen i iachâu cymdeithas a dod â phobl at ei gilydd eto. Tybed a yw'r amser wedi dod i ailddarganfod carism ein traddodiad ni, sef i ddatgan ac i ddangos unwaith eto gariad hollgynhwysol Duw, sy'n cofleidio ac yn uno pawb, pwy bynnag y bo ac o ble bynnag y daw? A oes cyfle inni, drwy'r posibilrwydd o weithio tuag at Synod newydd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, gan weithio'n ddwyieithog ar lefel y Synod a dangos undod, felly, i'n cymdeithas ni, â'r enwadau eraill sy'n gweithio yn yr un ffordd yn barod?

Yn sicr, dwi'n credu, mae gennym ni alwad i ddod â phobl at ei gilydd, ac nid i'w gwahanu ymhellach. Brodyr a chwiorydd ydym ni oll yng Nghrist, a fu fyw, a fu farw ac a atgyfododd dros bawb. Mae tymor y Grawys yn rhoi cyfle inni fyfyrio'n ddwys ar y themâu yma, ac i barhau i ganolbwyntio ar ein bywyd ysbrydol gyda'n gilydd. Ond mae'n rhaid inni gofio nad drosom ein hunain yn unig yr ydym yn gwneud hyn, ond er mwyn pobl eraill hefyd. Mae'r byd yn dyheu am yr undod sy'n cael ei gynnig yng Nghrist: fy ngobaith yw y byddwn yn ymateb i'r alwad i ddangos y ffordd tuag ato Ef, a thuag at lawnder bywyd i bawb.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Chwefror**
3 Llanrhaeadr
10 Gwyliau
17 Powys
24 De Gwynedd

**Mawrth**
3 Morgannwg
10 Ar gael
17 Glannau Maelor
24 Môn ac Arfon
31 Dyffryn Conwy

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

Pe bai pob elusen a mudiad gwirfoddol yn penderfynu dirwyn eu gwaith i ben heb rybudd, fe fyddai'r Llywodraeth yn wynebu'r argyfwng gwaethaf a fu ers dechrau'r Ail Ryfel Byd. Fe fyddai problemau Brexit yn ymddangos yn ddim mwy na threfnu te parti bach o gymharu â cholli'r strwythurau elusennol sydd mor hanfodol i gydlynu gwaith y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Awdurdodau Lleol. Ni fyddai digon o filwyr ar gael i lenwi'r bylchau heb sôn am gadw trefn sifil. Fe fyddem mewn byr o dro yn ymdebygu i un o wledydd y trydydd byd rhagor na'n statws presennol fel un o wladwriaethau cyfoethocaf y byd.

Mae'r syniad o edrych ar ôl y llai ffodus yn un a welir yn eglur yn yr Hen Destament. Ceir anogaeth i warchod y weddw a'r amddifad mewn sawl man ac mae'r rheolau ynglŷn â derbyn y dieithryn a'r ymwelydd yn batrwm o ymddygiad gwaraidd ac elusengar.

Coron y cyfan wrth gwrs yw dysgeidiaeth Iesu Grist ar garu cyd-ddyn a gelyn. Pe bai'r byd wedi derbyn yr anogaeth i oddef pob gelyn nes ei ennill yn frawd, fe fyddai'r rhesymau am ryfel wedi hen beidio â bod.

Erbyn cyfnod Elisabeth 1 roedd yna nifer fawr o fân elusennau ond dim byd yn diffinio beth yn union oedd eu swyddogaeth a'u pwrpas. Gwnaed iawn am hyn gan statud 43 Elisabeth 1 yn 1601 pan gafwyd rhestr gynhwysfawr o'r hyn roedd y wladwriaeth yn ei ystyried yn bwrpasau elusennol. Mae yn sôn yn adran 4 o'r ddeddf am gymorth i'r hen, y tlawd a'r afiach ynghyd â milwyr a morwyr clwyfedig. Rhestrir hefyd ysgolion a phrifysgolion, eglwysi, pontydd, porthladdoedd a chadwraeth tai cosbi, fel elusennau dan y ddeddf.

Deddf Elisabeth 1 yn 1601 fu'r diffiniad awdurdodedig o elusen am 290 o flynyddoedd hyd nes cafwyd datganiad enwog yr Arglwydd Macnaghten yn achos Comisiynwyr Arbennig Treth Incwm yn erbyn Pemsel yn 1891. Dywedodd Macnaghten bod pedwar dosbarth o elusennau sef (1) lleddfu Tlodi; (2) hyrwyddo Addysg; (3) hyrwyddo Crefydd; (4) pwrpasau eraill o Fudd i Gymdeithas.

Dylid nodi fan hyn mai gweithredu oedd Pemsel fel Ysgrifennydd Eglwys y Morafiaid, Fetter Lane. Llundain. Ffurfiwyd yr Eglwys Forafaidd yn 1457 yn Bohemia ond yn ystod y gwrthddiwygiad yn Ewrop fe fu dan erledigaeth greulon. Daeth rhai i Lundain ac erbyn 1740 roedd ganddynt gapel yn Fetter Lane gerllaw Fleet Street.

Fe ddaeth John Wesley i gysylltiad â'r Morafiaid am y tro cyntaf wrth iddo dreulio tri mis ar fwrdd llong ar ei daith i America. Ym mis Ionawr 1736 bu storm enbyd a bu'r Saeson ar fwrdd y llong yn sgrechian mewn ofn am eu bywydau. Ond roedd y Morafiaid ar y llong yn canu emynau heb arwydd o bryder arnynt. Edmygodd John Wesley eu dewrder ac wedi dod yn ôl i Lundain bu'n rhan o'r seiat yn Fetter Lane. Roedd y gymdeithas yno yn cyfarfod yn wythnosol i gyffesu eu pechodau ac i weddïo ac astudio'r Beibl. Nodwedd arall o addoliad y Morafiaid oedd eu canu nerthol.


Wedi cyfnod cythryblus o ddadlau fe adawodd John Wesley'r seiat yn Fetter Lane gan nad oedd yn gallu derbyn holl syniadau'r Morafiaid. Credai John Wesley mai addoliad oedd y llwybr i iachawdwriaeth tra bod y Morafiaid yn dweud bod addoli cyn iachawdwriaeth yn sicrhau damnedigaeth. I un oedd yn credu bod achubiaeth i holl ddynolryw yn bosib, ni allai Wesley dderbyn gweithred y Morafiaid, yn gwrthod gweinyddu'r Cymun i rai nad oeddent yn eu tyb hwy, wedi derbyn sancteiddhad llwyr.

Er bod Wesley wedi ymbellhau oddi wrth y Morafiaid mae'n rhaid bod eu heglwys yn Fetter Lane wedi bod yn llwyddiannus oherwydd mae'r adroddiad am eu hachos yn dweud bod cyfalaf ac incwm sylweddol ganddynt. Agorodd dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi y drws i lawer o elusennau gael eu sefydlu nad oedd y ddeddf yn eu cydnabod cyn 1891.

Fe wyddom fod rhai elusennau enwog yn y newyddion heddiw oherwydd gweithredoedd amheus eu gweithwyr. Y gobaith yw y bydd eu henwau da yn cael eu hadfer yn fuan a bod strwythurau rheoli cadarn mewn grym erbyn hyn. Ni all elusennau secwlar a chrefyddol fentro heb sicrhau bod pawb sy'n cael ei gwasanaethu ganddynt yn ddiogel. Mae'r drefn diogelu eglwysig yn bodoli i amddiffyn yr aelodau, y swyddogion, y gweinidogion a'r Cyfundeb. Er bod Iesu Grist wedi ein hannog i wneud ein helusen bersonol yn y dirgel, mae'n rhaid i holl weithredoedd yr eglwys fod yn agored ac yn amlwg.



# Y diweddar Barchg Ddr Owen E Evans



## *Rhan o deyrnged y Parchg Philip Barnett*

Deuthum i adnabod y Parchg Ddr Owen E Evans bron i 55 mlynedd yn ôl pan euthum i Goleg Hartley Victoria, Manceinion, ynghyd â rhyw 75 o fyfyrwyr eraill, i dderbyn hyfforddiant ar gyfer Gweinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd. Roedd Owie yn darlithio yno yn y Testament Newydd. Gosodwyd pob myfyriwr mewn Tiwtorial ac yn Nhiwtorial y Prifathro Dr Percy Scott y cefais i fy ngosod. Yn fuan wedi dechrau'r tymor cyntaf fe ddarganfu Owie mai yn y Bala roedd fy nheulu ac, ar unwaith, fe'm symudwyd i'w Diwtorial ef gyda gweddill yr hogiau o Gymru.

Fel Tiwtor yn y Coleg, teimlai Owie mai rhan o'i deulu ei hun oedd y disgyblion o dan ei ofal ac, yn arbennig wrth gwrs, y pump ohonom o Gymru. Ac, yn yr un modd, i ni nid Tiwtor yn unig oedd o ond ffrind a chyfarwyddwr. Daethom i adnabod ei deulu oll, gan fwynhau lletygarwch y Mans yn aml a mwynhau cyfeillgarwch Margaret oedd wastad â chroeso cynnes a swper swmpus.

Mae gan bawb ohonom o'r cyfnod hwnnw atgofion lawer amdano. Ei faes arbennig oedd yr Efengyl yn ôl Ioan ac mae yna drafodaeth hyd heddiw ynglŷn â'i hawduraeth. Weithiau byddai un o'r myfyrwyr, a'i dafod yn ei foch a'i lygaid yn pefrio, yn dweud: 'Mr Evans, ydych chi wedi darganfod pwy sgwennodd Efengyl Ioan eto?' A byddai Owie yn gwenu'n garedig!

Yn ddyn ifanc bu'n beldroediwr brwd ac ym Manceinion, wrth gwrs, roedd digon o gyfle i weld y timau enwog. I ddechrau, byddai'n mynd i wylio United yng nghwmni'r Prifathro ond, yn nes ymlaen, trosglwyddwyd ei gefnogaeth i City, lle roedd gwell awyrgylch i'r plant.

Mi wnaethon ni gadw mewn cysylltiad drwy'r blynyddoedd ond wedi imi ddod i Dregarth yn Arolygydd y Gylchdaith bu Owie a minnau yn aelodau o'r un tîm bugeiliol. Gofalu am Gapeli Môn roedd o yn ei ymddeoliad ac wrth ei fodd yng nghapeli'r Ynys. Mynychai Gyfarfod y Gylchdaith yn ffyddlon ond weithiau cefais ychydig o broblem. Doedd o ddim yn nodedig am gadw pethau'n fyr ac unwaith roedd o ar ei draed ac yn siarad fel pwll y môr doedd na ddim modd i mi ddirwyn ei araith i ben cyn iddo benderfynu ei hun ei fod o wedi cyrraedd y nod. Dywedais wrtho un tro:

"Dr Evans, yn amser y Coleg roedd na gloch yn canu ar ddiwedd eich darlith ond does gen i ddim cloch i'w chanu rŵan." Byddai'n gwenu'n garedig ond, y tro nesaf, yr un fyddai'r stori!

Sut y byddwn i a holl gyn-fyfyrwyr Manceinion yn ei gofio fo? Ysgolhaig, academydd o fri, dyn ei deulu, dyn annwyl a ffrind i bawb. Yn Gymro i'r carn, canwr brwd, ond yn fwy na dim byd arall, yn Gristion – Gweinidog yr Efengyl. Yn ffyddlon i'w Arglwydd ym mhob agwedd o'i fywyd a heddiw rydym i gyd yn diolch i Dduw am y fraint o'i adnabod. Heddwch i'w lwch. Cydymdeimlwn yn fawr â chi oll fel teulu. Bydd ein bywydau ninnau i gyd yn dlotach hebddo – yn bendant fe fydd y nefoedd yn gyfoethocach gan fod Owie Evans yno. A phwy a ŵyr – hwyrach ei fod wedi darganfod pwy sgwennodd yr Efengyl yn ôl Ioan?

### Teyrnged gan yr Athro Emeritws Eryl W Davies

Fel un o blant y Bermo, Sir Feirionnydd, y bydd cyfeillion Owen Evans yn ei adnabod, er mai yn Llundain y treuliodd bum mlynedd gyntaf ei oes. Wedi gadael yr Ysgol Ramadeg yn 1937 aeth Owen yn ôl i Lundain, gan ymuno â'r Gwasanaeth Sifil, a thra'r oedd yno dechreuodd bregethu ar y gylchdaith Fethodistaidd Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn teimlodd awydd i gynnig ei hun yn ymgeisydd am y weinidogaeth, a chafodd ei dderbyn i Goleg Headingley, sef coleg ei enwad, yn Leeds. Cafodd ei ordeinio yn 1951, a bu'n weinidog am ddwy flynedd yng Nghricieth, ond yn fuan wedyn fe'i penodwyd i Gadair y Testament Newydd yng Ngholeg Hartley Victoria ym Manceinion, lle bu am 16 mlynedd.

Yn nechrau 1969 ymunodd Owen â'r Adran Efrydiau Beiblaidd (fel yr adwaenid hi bryd hynny) ym Mangor, yn ddarlithydd y Testament Newydd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yno y bu hyd nes iddo ymddeol yn 1988.

Fe'i penodwyd yn gadeirydd y panel a fu'n gyfrifol am gyfieithu'r Testament Newydd yn 1963, ac yna, yn 1974, fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr y *Beibl Cymraeg Newydd*. Byddai'n anodd i neb amgyffred yr amser a'r llafur a roes Owen Evans i'r gwaith hwn, a thrwy ei waith diflino ef a'i gyd-banelwyr fe sicrhawyd bod y Beibl cyfan yn barod i'w gyhoeddi erbyn dydd Gŵyl Dewi 1988. Cafodd ei gyfraniad ei gydnabod pan ddyfarnwyd iddo radd Doethur mewn Diwinyddiaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1988 ac fe'i hetholwyd yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Wedi iddo ymddeol aeth Owen ati i baratoi Mynegair, sef rhestr yn nhrefn yr wyddor o bob gair sy'n ymddangos yn y *Beibl Cymraeg Newydd* – gwaith cwbl eithriadol a gymerodd ddeng mlynedd i'w gwblhau. Nid oes unrhyw amheuaeth bod y gyfrol a gyhoeddwyd – sy'n ymestyn ymhell dros fil o dudalennau – yn gampwaith ac yn arf pwysig, defnyddiol, ac angenrheidiol i'r sawl sy'n astudio'r Beibl o ddifri.

Bu Owen yn heddychwr o argyhoeddiad ar hyd ei oes. Bu'n wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a bu'n weithgar yng Nghymdeithas y Cymod am flynyddoedd lawer, gan gael ei ethol yn Llywydd y mudiad yn 1992-94.

Bûm yn fyfyriwr iddo yn y 70au cynnar, ac un o'i nodweddion arbennig fel darlithydd oedd ei garedigrwydd ystyriol tuag at yr holl fyfyrwyr dan ei ofal. Ef a'm dysgodd sut i ddarllen y Testament Newydd yn yr iaith wreiddiol, a bydd pawb a fynychodd ei ddosbarthiadau'n cofio am y sylw manwl a roddai i ystyr a tharddiad pob gair. Pan ddeuthum yn ôl i Fangor yn ddarlithydd ar ddiwedd y 70au, bu Owen yn gydweithiwr hynaws a pharod iawn ei gymwynas bob amser, a mawr fu fy nyled bersonol iddo am ei gefnogaeth, ei gyngor caredig a'i gyfarwyddyd doeth dros y blynyddoedd.

Pan fu i Owen ymddeol o'r Adran, cefais y fraint o olygu cyfrol deyrnged iddo (*Efrydiau Beiblaidd Bangor 4*, Gwasg Gee, 1988), ac roedd hynny'n gyfle i'w gydweithwyr a'i gyfeillion ddangos eu gwerthfawrogiad o'i gyfraniad i ysgolheictod Beiblaidd yn y Gymraeg. Fel darlithydd, rhoes Owen do ar ôl to o fyfyrwyr yn drwm yn ei ddyled, a thrwy'r gwaith aruthrol a wnaeth gyda'r *Beibl Cymraeg Newydd* fe roes holl genedl y Cymry yn ei ddyled hefyd.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Horeb, Croesoswallt

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
I agor tymor y Gymdeithas ar 8 Hydref yn Horeb, cawsom swper ardderchog wedi ei baratoi gan Howard Martin ac adloniant gan barti merched Lleisiau Ceiriog, dan arweiniad Bethan Jones gyda'i gŵr, Richard, yn cyfeilio. Cafwyd noson gofiadwy ganddynt. Yna ar 12 Tachwedd yn Seion cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Elgar Hughes, Glyn Ceiriog, a rannodd ei atgofion bore oes. Ar 6 Rhagfyr mwynhawyd cinio Nadolig; diolch i Hefin Jones, Glenys Lloyd ac Aubrey Davies am y trefniadau.
Cofiwn yn annwyl am ddau o ffyddloniaid y Gymdeithas a gollwyd o'n plith eleni, sef Mr Tegwyn Williams a Mrs Mary Jones. Dridiau wedi'r Nadolig daeth y newyddion trist am farwolaeth Dewi Jones, un arall o selogion y Gymdeithas. Cydymdeimlwn â Hefin, ei briod, a'r teulu oll.

**OEDFA A PHLYGAIN**
Fore Sul 23 Rhagfyr yn Horeb cynhaliwyd oedfa llith a charol wedi ei threfnu gan y Parchg Gwilym O Jones gydag aelodau o Horeb a Seion yn cymryd rhan. Yr organydd oedd Mrs Catherine Wilson. Yna ar 30 Rhagfyr cynhaliwyd Plygain Cefnblodwel a daeth nifer dda o bartïon ac unigolion o bell ac agos i ganu carolau plygain traddodiadol. Llywyddwyd gan y Parchg Gwilym O Jones a mwynhawyd lluniaeth ar y diwedd. Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Mervyn Roberts, Tyn y coed, swyddog ac un o ffyddloniaid y capel. Cydymdeimlwn â'i briod a'r teulu oll.

**GOHEBYDD** . EURWYN JONES

### Salem, Rhyd y Foel

**FFAIR NADOLIG**
Nos Wener 7 Rhagfyr cynhaliwyd ein ffair Nadolig yn neuadd y pentref. Roedd y neuadd yn orlawn – noson lwyddiannus dros ben a gwnaed elw o dros £400 tuag at y capel.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Yn ystod tymor y Nadolig cawsom gyfle i anfon cardiau rhodd ar gyfer plant/pobl ifanc na fydd efallai yn cael anrheg ar unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.

**GWASANAETH CAROLAU**
Dydd Sul 16 Rhagfyr cawsom wasanaeth carolau dwyieithog, cydenwadol o dan arweiniad ein gweinidog y Parchg Tudur Rowlands. Roedd dros 70 yn bresennol. Defnyddiwyd taflenni Carolau Bethlehem gan yr elusen "Embrace the Middle East" sydd yn darparu gwasanaeth meddygol i deuluoedd bregus yn y Dwyrain Canol. Darllenwyd gan Rowena, Bethan a Steffan a chafwyd unawd ar y ffliwt gan Cadi Mai a deuawd gan Beth a Steffan. Arweiniwyd Gwil, Matthew, Mari, Mali Grug, Cadi a Mali Faith yn eu gwisgoedd Nadoligaidd i'r sêt fawr gan Catherine a chafwyd anerchiad arbennig i'r plant ganddi. Gweddïwyd gan Angela a chofiwyd yn arbennig am fam Angela sef Mrs Morwenna Jones a'i nain Mrs Gladys Edwards, aelodau ffyddlon yn Salem. Ar derfyn y gwasanaeth derbyniodd y plant anrheg oddi ar y goeden Nadolig a mwynhawyd lluniaeth. Diolch i Menna ac Esther am eu gwaith arbennig yn addurno'r capel ac i Anna am gyfeilio. Yn ôl ein harfer rhoddwyd yr offrwm i Gweithredu Dros Blant ac fe gasglwyd £175.

**GOHEBYDD** . SIÂN PRICE

### Tabernacl, Llanfyllin

**DRWS AGORED**
Mwynhawyd noson ddiddorol yng nghwmni Miss Rhoswen Charles, a siaradodd am 'Argraffiadau o Iran'. Trwy gyfrwng sgwrs a sleidiau, cawsom ddarlun o drysorau Iran, y mosgiau hardd a'r cerfluniau hynafol; clywsom hefyd am groeso cynnes pobl Iran.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â theulu Mrs Kelly Roberts, Bodyddon Isa, a fu farw yn ddim ond 33 oed. Mae cydymdeimlad ardal gyfan gyda Rhys ei gŵr, y plant bach Celyn a Huw, hefyd rhieni Kelly sef Mr a Mrs Pierce, Sarnau, ac Elwyn, Llywela ac Elin Roberts, teulu Rhys. Daeth tyrfa fawr i Gapel y Tabernacl ar 14 Rhagfyr, i ddangos eu cydymdeimlad ar farwolaeth y fam annwyl a hynod hon a wynebodd salwch creulon mor ddewr. Gweinyddwyd gan y Parchedig Sue Lawler gyda chymorth Tom Ellis a'r Parchedig Gwyndaf Richards a thalwyd teyrngedau i Kelly gan Mr George Davies a Gwenda Jones. Darllenwyd penillion gan ei chwaer, Rosie Pierce, a'r organydd oedd Mrs Eldrydd Jones.

**Y NADOLIG**
Cafwyd dechrau ardderchog i ddathliadau'r Nadolig eleni gyda gwasanaeth y Plygain ar y Sul cyntaf yn Rhagfyr, dan arweiniad y Parchg Gwyndaf Richards. Wedi cyhoeddi bod y blygain yn agored, daeth wyth parti ymlaen sef Merched y Wawr, Yr Ogof, Glanllyn, Fronheulog, Gad, Henlle, Geraint a Rhys, a dau unawdydd sef Arwel Lloran ac Ieuan ap Siôn. Gorffennwyd gydag 20 o ddynion yn canu Carol y Swper a thystiodd pawb mai dyma'r blygain orau ers llawer blwyddyn. Cafwyd swper blasus a sgwrsio difyr yn y festri i orffen y noson. Cafwyd gwasanaeth bendithiol hefyd o dan ofal yr Ysgol Sul, pan gymerwyd rhan gan Mared Price, Soffia Jones, Erin Thomlinson a Celyn Roberts yn ogystal â rhai o gyn-aelodau'r Ysgol Sul sef Catrin Jones, Elen a Mari Jones, Meg a Teleri Evans. Canwyd deuawdau gan Rhodri a Gerwyn Jones a chanwyd 'O ddwyfol nos' gan Rhodri. Trefnwyd y cyfan gan Eleri Llwyd a Rhian Lloyd Evans, gydag Eldrydd Jones wrth yr organ a'r capel wedi ei addurno'n hardd eto eleni gan Llywela Roberts.

**GOHEBYDD .** ROBIN HUGHES

### Pont Robert

**OEDFA BRO**
Cynhaliwyd Oedfa Bro ar y Sul cyntaf yn Rhagfyr. Trefnwyd yr oedfa gan y Parchedig Peter Williams a chymerwyd rhan gan amryw o'r aelodau. Braf hefyd oedd cael cwmni'r Annibynwyr gyda ni. Gweinyddwyd y Cymun gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan Mr John Ellis. Bronwen Gwalchmai oedd yn cyfeilio. Mwynhawyd paned ar y diwedd a dymunwyd yn dda i'r Parchedig Peter Williams yn ei ymddeoliad.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Siân Vaughan Jones, Penwtra, ar ei swydd newydd fel Anogwr Gwaith yn Y Trallwm, a llongyfarchiadau i'w merch Anni ar basio Gradd 3 gyda theilyngdod ar y piano. Dymuniadau gorau yn ogystal i Sioned Watkin, Abernaint, Llanfyllin (wyres Llinos a Bryan Tynywig) ar ei dyweddïad â Stuart Lewis o Ddolanog, a phob dymuniad da i Sioned yn ei swydd fel nyrs yn Ysbyty'r Amwythig.

**GOHEBYDD** . MARGARET BLAINEY

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**FFAIR NADOLIG**
Ar fore Sadwrn 17 Tachwedd fe gynhaliwyd ein Ffair Nadolig. Daeth criw da i'n cefnogi ac fe wnaethpwyd elw o £475. Diolch am bob cymorth i sicrhau bod y Ffair yn un lwyddiannus. Bu'r arian yn help mawr tuag at gostau'r boiler newydd, sydd bellach wedi ei osod. Mae'r capel yn gynnes ac yn glyd unwaith eto!

**GOHEBYDD** . EIRIAN JONES

## Ebeneser, Caernarfon

### COFIO YSGOLHAIG A GŴR BONHEDDIG
Yma yn Ebeneser, ym Mehefin 1951, fe ordeiniwyd y Parchedigion Erfyl Blainey, Geraint Parry, Trefor Richards ac Owen Ellis Evans. Roedd yr ordeinio yng ngofal y Dr William Sangster, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd ar y pryd. Yma hefyd, ar 12 Tachwedd 2018, y cynhaliwyd gwasanaeth o goffadwriaeth a diolchgarwch am fywyd y Parchedig O.E. Evans, ysgolhaig a gŵr bonheddig. Cydymdeimlwn yn gywir â'r teulu oll yn eu colled.

### PROFEDIGAETH
Yn frawychus o sydyn, bu farw Michael Davis, brawd Roger a brawd yng nghyfraith Carol. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth. Bu ei fam, Mary Davis, sydd yn 97 mlwydd oed, yn ffyddlon iawn i weithgareddau'r eglwys ar hyd y blynyddoedd.

### LLONGYFARCH
Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, ganwyd Anna Gwenllian i Deiniol a Manon Jones, chwaer fach i Ifan Llywelyn ac wyres i Olwen a Barry. Pob dymuniad da i'r teulu.

### GWASANAETH NADOLIG
Trefnwyd ein gwasanaeth eleni gan Eira Owain a lediwyd carolau gan Megan, Carol, Mati a Gwenllian. Cymerwyd rhan offerynnol gan Catrin a Henry. Cafwyd darlleniadau o'r Testament Newydd gan Olwen Jones, Gwenno Hughes a Ronnie Hughes ac arweiniwyd gweddïau gan Branwen Edwards. Cafwyd hefyd fyfyrdod Nadoligaidd gan Eira Owain. Yr organydd oedd Margaret Tüzüner. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom gyfle i sgwrsio a mwynhau paned a mins peis.

### GWESTY ADUNIAD
Hyfryd oedd gweld Pearl Williams yn ymddangos ar y teledu yn ddiweddar yng nghwmni ei hwyres, Taith Williams. Mabwysiadwyd Taith gan David Williams, mab Pearl, a'i briod pan oedd yn flwydd oed. Trwy ddirgel ffyrdd ac ymholiadau lu, darganfuwyd bod chwaer Taith yn byw yn Gwatemala. Diolch i raglen Gwesty Aduniad ar S4C, daeth cyfle i Taith gyfarfod â'i chwaer a'i chefnder yn ogystal. Llawenydd o boptu.

**GOHEBYDD** . BRANWEN L. EDWARDS

## Pendref, Dinbych



### ADDOLI
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Tachwedd a Rhagfyr dan ofal y Parchg Peter Jennings, Royce Warner, y Parchg Glyn Thomas, yr Hybarch Bernard Thomas a'r Parchg Tudur Rowlands. Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Parchg Thomas E Williams. Ar Sul y Cofio cynhaliwyd cyfarfod gweddi byr cyn inni fynd at Gofgolofn y Dref. Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn ein cyfarfodydd gweddi. Ar 16 Rhagfyr cafwyd oedfa o ganu carolau dan arweiniad Vera Savage gyda Beti Roberts yn cyfeilio a Geraint Roberts a Gwyn Williams yn canu unawdau. Ar ddiwedd y gwasanaeth mwynhawyd paned a mins peis a drefnwyd gan frodyr yr Eglwys.

### CINIO
Dydd Sadwrn 10 Tachwedd daeth aelodau Pendref ynghyd i fwynhau cinio ym Melin Brwcws, Dinbych. Dyma'r trydydd tro i ni gynnal achlysur o'r fath. Amser pleserus dros ben a phawb yn mwynhau'r bwyd blasus a'r gwmnïaeth.

### CYNNAL FFAIR
Ar 17 Tachwedd cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yng Nghanolfan Eirianfa. Diolch i bawb am gefnogi'r achlysur. Byddwn yn cynnal 2 ffair / bore goffi yn ystod 2019 – ym mis Mai a mis Tachwedd.

**GOHEBYDD** . MARY JONES

## Bethel, Prestatyn

### CINIO NADOLIG
Diolch yn fawr i'r cogydd Daniel ap Geraint, un o'n haelodau, am baratoi cinio Nadolig i'r gynulleidfa ddechrau Rhagfyr. Mwynhawyd y cinio a'r cyfeillgarwch yn fawr. Llongyfarchiadau hefyd i Daniel am ei waith gydag S4C – mae'n ymddangos ar raglen Pnawn Da yn rheolaidd i goginio seigiau blasus.

### CYNGERDD NADOLIG
Cawsom gyngerdd arbennig gan Gôr Ger y Ffin a rhoddwyd yr elw i Apêl Prestatyn ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

### DRWS AGORED
Gwahoddwyd y cyhoedd i mewn i weld y Capel wedi ei addurno ar gyfer y Nadolig. Mwynhawyd coffi, mins peis a cherddoriaeth Nadolig.

### GWASANAETHAU NADOLIG
Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid ac roedd yn hyfryd gweld y capel yn llawn eto eleni. Cafwyd stori'r Nadolig drwy ddarlleniadau, unawdau a phartïon canu gyda'r plant lleiaf yn actio'r stori hefyd. Ar ddiwedd yr oedfa mwynhawyd lluniaeth a chyflwynwyd anrhegion i'r plant gan Rachel Purser ac Anti Jane, athrawon yn yr Ysgol Sul.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun undebol yng ngolau canhwyllau ar noswyl Nadolig, dan ofal y Diacon Jon a'r Parchedig Brian Huw Jones, gweinidog Rehoboth. Yn dilyn y Nadolig hefyd, cawsom hefyd wasanaeth ar ffurf Plygain.

### GŴYL GOED NADOLIG EGLWYS Y PLWYF
Sêr yn disgleirio oedd thema ein coeden ar gyfer cystadleuaeth y coed Nadolig yn Eglwys y Plwyf. Bu'r plant yn brysur yn gwneud sêr allan o does, a'u haddurno â phaent, glitter a lluniau ohonynt yn eu gwisgoedd Stori'r Nadolig. Ar rai o'r sêr roedd adnodau yn ymwneud â'r Geni. Buom yn ffodus i dderbyn y wobr gyntaf yn adran y plant.



**... parhau ar dudalen 10**

# Dathlu'r Nadolig



BETHEL, PRESTATYN



EBENESER, EGLWYSBACH



BETHEL, PRESTATYN



SHILOH, TREGARTH



SALEM, RHYD Y FOEL



BETHEL, PRESTATYN

# *Y Cymry Sydd Ymhlith Goreuon Y Byd*

## *gan Gareth Blainey*

Un o'r anrhegion Nadolig gorau ges i ychydig mwy na mis yn ôl ydy "Beethoven Unbound". Casgliad ydy hwn ar ddeuddeg o gryno-ddisgiau o bob un o'r tri deg dau sonata i'r piano a gweithiau eraill i'r piano a gyfansoddwyd gan Ludwig van Beethoven. Y pianydd ydy Llŷr Williams, a gafodd ei eni ym Mhentrebychan sydd yn ymyl Wrecsam ym 1976. Astudiodd yng Ngholeg y Frenhines yn Rhydychen ac yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain cyn dod i'r amlwg fel un o bianyddion gorau ei genhedlaeth. Wrth wrando ar y cryno-ddisgiau dydw i'n synnu dim fod y beirniad cerdd uchel ei barch Michael Church wedi rhoi 'pum seren' – sef y marc uchaf posibl – i Llŷr Williams am safon ei berfformiadau mewn adolygiad yng nghylchgrawn *BBC Music* ym mis Awst y llynedd. "A stunning achievement" oedd barn Church ac rydw i'n cytuno. Pleser pur ydy gwrando ar Llŷr yn gwneud i gyfansoddiadau heriol Beethoven i'r piano swnio mor rhwydd i'w chwarae. Yr uchafbwynt yn fy marn i ydy ei berfformiad gwefreiddiol o sonata "Hammerklavier" sy'n waith hynod o anodd yn dechnegol a hefyd yn waith hir i unawdydd gan ei fod yn para tua thri chwarter awr.

Rydw i'n credu y dylsen ni fel Cymry ymfalchïo yn y ffaith fod Llŷr Williams a nifer o'n cydwladwyr eraill fydd yn dal yn iau na hanner cant oed ar ddiwedd eleni ymhlith y cerddorion clasurol gorau ledled y byd. Rydw i wedi cynnwys y geiriau 'ar

# Bedydd a Charolau yng Nghalcoed

Yng nghapel Cynfaen, Calcoed, ar bnawn Sul, 25 Tachwedd 2018 cafwyd oedfa arbennig dan arweiniad y gweinidog y Parchg Marc Morgan, pan fedyddiwyd Henry Oliver Kitamura Davies, mab Matthew a Tatiane Davies. Mae Tati yn hanu o São Paulo, Brasil. Braf oedd cael cwmni cynifer o ffrindiau, teulu ac aelodau. Nid mewn un iaith yn unig y cynhaliwyd yr oedfa ond mewn tair – Saesneg, Cymraeg a Phortiwgaleg. Wedi'r oedfa gwahoddwyd pawb i aros i gael paned a chacen – cacennau o Frasil wedi eu paratoi gan Tati. Mae'r teulu'n ffyddlon iawn yn yr oedfaon Saesneg eu hiaith – gyda Henry yn dawnsio gyda'r emynau ac yn porthi'r gweinidog!

Ar 16 Rhagfyr cymerwyd rhan gan aelodau a ffrindiau'r eglwys mewn Gwasanaeth Carolau dwyieithog. Yn eu plith roedd un 'bugail' sef Henry oedd wedi gwisgo'n bwrpasol i'r achlysur. Wedi'r canu, braf oedd cael cyfle i gymdeithasu dros baned a mins pei.



# Cyfeillion Pendref, Dinbych yn mwynhau cinio



ddiwedd eleni' yn fwriadol yn y frawddeg ddiwetha oherwydd y bydd y tenor Gwyn Hughes Jones yn dathlu ei ben-blwydd yn hanner cant eleni, ac mae tri chanwr arall – Syr Bryn Terfel, Rhys Meirion a Shân Cothi – eisoes dros eu hanner cant.

Dwy Gymraes sydd tua'r un oedran â Llŷr Williams a'r un mor ddisglair ag o yn eu meysydd nhw ydy'r delynores Catrin Finch, a gafodd ei geni ym 1980, a'r soprano Elin Manahan Thomas, a gafodd ei geni ym 1977. Mae sôn amdani hi yn f'arwain at destun yr erthygl ysgrifennais i ar gyfer rhifyn diwethaf y 'Gwyliedydd' ar gerddoriaeth Morfydd Owen. Rydw i'n cael cymaint o fwynhad a gwefr yn gwrando ar Elin Manahan Thomas yn canu ei chaneuon hi yn cynnwys 'Gweddi y Pechadur' a 'To Our Lady of Sorrows' ar gryno-ddisg 'Morfydd Owen – Portrait of a Lost Icon' ag ydw i wrth wrando ar gampau Llŷr Williams yn ddiweddar.



**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**
Testun ein cyfarfod ym mis Rhagfyr oedd Eirin Dinbych a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Iona a Caryl Jones, gyda chyfle hefyd i flasu peth o'r cynnyrch.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch mawr y cofnodwn inni golli aelod sef Mr Iwan Davies. Bu Mr Davies yn aelod ffyddlon ac yn organydd yng nghapel Brunswick, Y Rhyl cyn ymaelodi ym Methel. Cofiwn amdano fel Prifathro, Enillydd Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol, arweinydd a chyfeilydd. Cynhaliwyd yr angladd ym Methel ac roedd y Capel, y Festri a'r Porth y orlawn. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eirlys, ei wraig, Siân, Geraint a'r teulu i gyd.

**GOHEBYDD** . GWENDA HUMPHRIES

## *Ardal Bathafarn*

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at John Hughes a Iolo Evans, y ddau wedi derbyn triniaeth. Dymunwn yn dda hefyd i Margaret Hughes yn Abbeyfield, hithau ddim yn medru dod i'r oedfaon mor gyson erbyn hyn, ac i Gretta Davies yn Nolwen, Eva Rogers Jones ym Mryn Derwen, Llanelwy, ac Ifor Parry ym Mhlas Gwyn.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
I ddathlu'r Nadolig cawsom noson ddymunol iawn yn Llys Awelon, gyda chyfraniadau ac atgofion gan aelodau Bathafarn a phreswylwyr Awelon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff Llys Awelon am ganiatáu inni ddefnyddio'r cyfleusterau yno.

**OEDFAON**
Roedd oedfa Sul y Cofio o dan ofal Elizabeth. Cynhaliwyd Oedfa Gymun o dan ofal y Parchg Martin Evans-Jones a'r Parchg Tudur Rowlands yng Nglyndyfrdwy. Hefyd gwasanaeth o dan ofal Tom Morris, Llanrhaeadr ym Mochnant. Braf oedd cael croesawu'r Parchg Jennie Hurd atom hefyd.

Wrth inni ddathlu Gŵyl y Geni yng Nghanolfan Awelon, cymerwyd rhan gan Elizabeth, Olwen a Dilys o Fathafarn, Ann o Lyndyfrdwy, Siân o Wyddelwern a Marian ac Elwyn o Gorwen. Cafwyd neges bwrpasol iawn gan y Parchg Jennie Hurd. Cyfeiliwyd gan Rhian. Rhoddwyd y casgliad i Gweithredu dros Blant. Mwynhawyd lluniaeth blasus a baratowyd gan Mairwena Mosford, Meta, Lowri, Gwyneth a Rhian Hughes. Ar y Sul cyn y Nadolig hefyd cafwyd gwasanaeth yn Llys Awelon gyda darlleniadau gan Martin, penillion gan Lowri a hanes gan Elizabeth am gyfansoddi'r garol enwog *Dawel Nos* 200 mlynedd yn ôl. Yn ogystal fe soniodd Olwen am draddodiad y Plygain.

Ar fore'r Nadolig cynhaliwyd Oedfa Gymun yn y Tabernacl o dan ofal y Parchg Morus P. Morris a bendithiol iawn oedd cael dod at ein gilydd. Y cyfeilydd oedd Teresa Wynne.

**DIOLCH**
Ym Mhwyllgor yr Ardal yn Rehoboth, Corwen, da oedd cael cwmni'r Diacon Stephen Roe gyda ni. Diolch i bawb o'r swyddogion yn yr Ardal a'r capeli am eu hymroddiad mewn cyfnod anodd.

**ANRHEGION**
Daeth Margaret Morgan atom i sgwrsio am Ymgyrch Nadolig Gweithredu dros Blant. Roedd Ardal Bathafarn wedi rhoi llu o anrhegion i'r ymgyrch.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at deulu'r diweddar Barchedig Ddr Owen E. Evans, un o hoelion wyth yr Eglwys Fethodistaidd ac ysgolhaig disglair. Mae ein cydymdeimlad yn mynd hefyd at Rob ac Edwina Stephens, Rob wedi colli cefnder sef Jon Adams. Hefyd Gwyneth, Ceinwen, Arwel a'u teuluoedd o golli perthynas sef Olwen Edwards, gynt o'r Berth, Rhewl.

**GOHEBYDD** . ELIZABETH JONES

## *Eglwys Unedig Colwyn*

**CYFARFOD GWEDDI**
Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Undebol yn Horeb ar Dachwedd 5ed, pan gynrychiolwyd yr Eglwys Unedig gan Rhiannon.

**CYNGERDD CAROLAU**
Cynhaliwyd y Cyngerdd Carolau elusennol blynyddol yn Horeb ar nos Fercher 12 Rhagfyr. Yn cymryd rhan roedd yr unawdydd Callum Mckay, Côr Ysgol Llandrillo yn Rhos a Chôr Meibion Colwyn. Arweinydd y noson oedd Alun Hughes a'r organydd oedd Mr Gwyn Jones. Braf oedd cael cwmni'r Parchg Jennifer Hurd a diolch iddi am ei chyfraniad ar y noson. Codwyd y swm sylweddol o £637 er budd Hosbis Dewi Sant a Thŷ Gobaith. Diolch i Ken am ei waith caled i sicrhau llwyddiant y noson.

**OEDFA'R NADOLIG**
Ein tro ni oedd hi i gynnal y Gwasanaeth Undebol fore Nadolig. Cymerwyd rhan gan Arfon, Gwenllian, Ken, Rhiannon ac Owen. Diolch o galon i Owen am drefnu'r gwasanaeth.

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob dymuniad da i Marian sydd yn symud i Gwrt Gloddaeth, Llandudno ar ddechrau Ionawr. Ein cofion caredig at bawb sydd heb fod mewn iechyd da ar hyn o bryd.

**PEN-BLWYDD**
Llongyfarchiadau arbennig i Mrs Dora Jones a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 102 ar 30 Rhagfyr.



**GOHEBYDD** . RHIANNON JONES



*Côr Meibion Colwyn dan arweiniad Mr Tudur Eames*

## *Ebeneser, Dolgellau*

**GWASANAETH CAROLAU**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau ar fore Sul 23 Rhagfyr dan ofal y Diacon Stephen Roe, gyda phaned yn dilyn y gwasanaeth.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn ag Emlyn Lloyd, Cregenan, ar golli ei ferch-yng-nghyfraith yn ddiweddar. Meddyliwn amdano a'r holl deulu yn eu colled.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at Gwyneth Meredith sydd mewn ysbyty yn Lerpwl a hefyd at

Bryngwyn Thomas yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau i'r ddau am wellhad buan. Ein cofion hefyd at Hugh a Marian Humphreys, y ddau heb fod yn dda yn ddiweddar, ond da yw clywed bod Marian adref o'r ysbyty.

**GOHEBYDD** . BERYL NORGROVE

## *Ebeneser, Eglwysbach*

### PARTI NADOLIG
Bore Sul 16 Rhagfyr mwynhawyd parti Nadolig ac fe ddaeth Siôn Corn heibio gydag anrhegion i'r plant.

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Jessica a Kelvin ar enedigaeth efeilliaid, Elizabeth a Sophia, chwiorydd i Joseph ac wyresau i Deryl a Dewi Jones, Minafon.



**GOHEBYDD** . CHARLES CRAPPER

## *St Paul, Aberystwyth*

### GWASANAETHAU
Cynhaliwyd dau wasanaeth bendithiol a chofiadwy dros y Nadolig. Ar y Sul cyn dydd Nadolig, 23 Rhagfyr, trefnodd ac arweiniodd Bet Holmes oedfa o garolau a darlleniadau. Mae'n amlwg i Bet roi llawer o amser a meddwl i baratoi'r oedfa. Cawsom gyfle i ganu detholiad o benillion o wyth carol, gan gynnwys hen garolau traddodiadol Cymraeg a chyfieithiadau i'r Gymraeg. Hyfrydwch arbennig oedd canu emyn Nadolig y diweddar Barchedig Tudor Davies, 'Am ryfeddod mawr dy eni' i'r dôn Irby. Diddorol hefyd oedd canu cyfieithiad Saunders Lewis, 'Dywed, Fair, pa bryd i'n llesu', o hen emyn Lladin i'r dôn Quem Pastores Laudavere. Ar y Sul wedyn, 30 Rhagfyr, ymunodd y cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg sy'n addoli yng Nghanolfan Sant Paul mewn gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Marty Presdee. Roedd hwn yn enghraifft berffaith o addoliad dwyieithog. Mae nifer sylweddol o'r gynulleidfa Saesneg wedi dysgu Cymraeg naill ai yn yr ysgol neu fel oedolion, rhai ohonynt i safon uchel iawn. Cawsom oedfa hyfryd a diddorol gyda chyfle i feddwl am neges y Nadolig. Diolchwn yn fawr i Bet a Marty am yr holl waith paratoi y maent wedi ei wneud i gyfoethogi'r cyfnod arbennig hwn o'r flwyddyn.

**GOHEBYDD** . LIONEL MADDEN

## *Ebeneser, Treuddyn*

### CAROLAU
Ar 23 Rhagfyr cawsom wasanaeth carolau dwyieithog bendithiol iawn dan arweiniad ein gweinidog y Parchg Eirlys Gruffydd Evans. Daeth nifer o ffrindiau a thrigolion y pentref i ymuno â ni ac yn dilyn y gwasanaeth cawsom gyfle i sgwrsio â phawb a mwynhau paned a chacen.

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Mandy Jackson ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd William David, mab bach i'w merch Bethan a'i gŵr Peter Watkiss, a brawd bach i Meghan Mair. Dymuniadau gorau i chi i gyd.

**GOHEBYDD** . GLENYS DAVIES

## *Bethel, Rhiwbeina, Caerdydd*

### CODI ARIAN
Ar ddiwedd Tachwedd cynhaliwyd Bore Coffi i godi arian at Brosiect y Digartref. Cyfrannwyd £500 i'r elusen.

### DATHLU'R NADOLIG
Fore Sul, 9 Rhagfyr, cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul mewn gwasanaeth Nadolig. Mwynhawyd paned a danteithion wedyn, ac ymweliad gan Siôn Corn. Ar 16 Rhagfyr roedd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau; canwyd carolau a chyflwynwyd stori'r Nadolig trwy ddarlleniadau o'r Beibl a cherddi. Cyflwynodd y côr bedair carol dan arweiniad Gwilym Roberts a chanwyd unawd gan Trystan Francis.

### CROESAWU
Bu'n bleser croesawu aelodau o gapel Salem Treganna i'r gwasanaeth ar 23 Rhagfyr. Ein gweinidog, y Parchg Evan Morgan oedd yn pregethu ac yn gweinyddu'r Cymun. Ymunodd aelodau o Salem â ni eto ar Sul olaf y flwyddyn pan oedd y gwasanaeth dan ofal Mr Alan Pickard.

### CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA
Ar noswyl Nadolig, cynhaliwyd oedfa naw llith a charol am 11 yr hwyr dan nawdd y Gymdeithas Gymraeg leol.

### ER COF ANNWYL
Yn fuan ar ôl y Nadolig cawsom y newyddion trist am farwolaeth dau o'n haelodau hynaf: Mr Bob Davies a Mr John Rodgers. Cydymdeimlwn yn ddwys â'u teuluoedd a byddwn fel capel yn gweld eisiau cwmni dau gymeriad hoffus iawn.

### LLONGYFARCH
Ar 7 Rhagfyr fe aned Jac Tomos Francis, mab i Siân a Trystan Francis a brawd bach i Mimi. Dymuniadau gorau i'r teulu.

**GOHEBYDD** . GWILYM E ROBERTS

## *Horeb, Llanrwst*

### GWELLHAD BUAN
Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Margaret Foulkes, aelod ffyddlon yn Horeb, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad iechyd llawn hefyd i Peter, un o'n haelodau gweithgar.

### CYDYMDEIMLO
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Rona Jones, Arwel ac Elfrys a'r teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar o golli chwaer yng nghyfraith a modryb sef Mrs Olwen Lloyd Edwards, Rhewl.

### DYMUNIADAU GORAU
Dymuniadau gorau'r eglwys i Wyn a Karen ar achlysur eu priodas. Mae Wyn yn fab i Mrs Rona Jones a'r diweddar Ceiriog Jones.

**GOHEBYDD** . EIRA JONES

## *Shiloh, Tregarth*

### DATHLU'R NADOLIG
Cawsom oedfa arbennig ar 23 Rhagfyr pan gyflwynwyd stori'r Nadolig gan y plant a'r ieuenctid, gyda datganiad ar ddwy delyn gan Gwenno ac Annest ac unawd gan Aziliz yn ogystal â chyfraniadau gan Iestyn, Gwenlli, Gwenno Kervegant, Gwenno Roberts, Huw, Luke, Myfi a Nel. Chwaraewyd rhannau Mair a'r Baban Iesu gan Mali Non a'i chwaer fach bum mis oed Nanw Branwen, gyda Mali'n canu 'Dyma ni'n mynd i Fethlehem'. Diolch i Christine am drefnu ac i'r Parchg Richard Gillion am ei arweiniad. Cafwyd parti Nadolig ardderchog ar ddiwedd yr oedfa. Yna ar noswyl y Nadolig cynhaliwyd oedfa'r Cymun Bendigaid. Diolch am y cyfle i ddod at ein gilydd i gofio am y mab bychan yn y preseb. Yr organydd oedd Wynn Williams a diolchwn iddo yntau am ei gyfraniad drwy'r flwyddyn. Addurnwyd y Capel yn hardd dros ben a diolchwn i Eirwen ac Anwen am hynny.

### GWELLHAD BUAN
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Valmai Owen, sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb o aelodau a chyfeillion Shiloh sydd yn wael ar hyn o bryd.

**GOHEBYDD** . GWENDA DAVIES

# Darllen a Gwrando

*gan Lionel Madden*




Rhyw ddwy flynedd yn ôl cefais broblem gyda'r llygaid a darganfod fy mod yn dioddef o ddirywiad macwla. Mae'n gyflwr sy'n effeithio ar nifer sylweddol o bobl oedrannus. Rwy'n ffodus mai'r ffurf 'wlyb' sydd arnaf ac felly gallaf gael pigiadau yn y llygaid sy'n helpu i sefydlogi neu arafu datblygiad y cyflwr o leiaf ar hyn o bryd. Mae darllen wedi bod yn bwysig iawn imi trwy gydol fy mywyd, yn fy ngyrfa fel llyfrgellydd a hefyd fel fy mhrif bleser yn fy oriau hamdden. Erbyn hyn mae darllen print bach wedi dod yn anodd iawn i mi fel llawer o bobl oedrannus eraill.

Yn ffodus, ceir nifer o ddatblygiadau technegol sy'n gallu gwella'r sefyllfa a chynnig cymorth i ni sydd â nam ar y golwg ond heb fod yn ddall. Rydym yn hen gyfarwydd â llyfrau print bras sydd ar gael trwy lyfrgelloedd. Yn fwy diweddar cawsom e-lyfrau sy'n cael eu darllen ar sgrin. Un fantais amlwg i'r rheini yw ei bod mor hawdd gwneud y print ar y sgrin yn fwy yn ôl yr angen.

Ond mae un ffordd arall o 'ddarllen' llyfr, sef gwrando ar rywun arall yn darllen y geiriau ichi. Mae llawer o bobl sydd heb unrhyw broblem o gwbl gyda'r llygaid yn gwneud hyn wrth iddynt deithio yn y car. Maent yn gwrando ar rywun yn darllen ar CD neu ar y radio. Un fantais bwysig o wrando ar lyfr llafar yw bod mwy nag un person yn gallu gwrando yr un pryd.

Wrth gwrs, nid llyfrau yn unig sydd ar gael yn y ffurf hon. Mae Papurau Sain (Talking Newspapers) wedi bodoli ar gyfer papurau lleol ers 1969 pan lansiwyd fersiwn llafar o'r *Cambrian News* yn Aberystwyth. Hwn oedd y papur sain cyntaf yn y Deyrnas Gyfunol.

Erbyn hyn mae'r *Gwyliedydd* hefyd wedi dod yn bapur sydd ar gael i wrando arno. Mae'r tri rhifyn diwethaf wedi ymddangos yn rhad ac am ddim ar CD. Mae pob CD yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rhifyn ac yn cael ei ddarllen yn hyfryd gan Bethan Dwyfor. Os ydech, fel fi, yn cael trafferth gyda'r llygaid ond heb fod yn ddall, mae'n bleser pori trwy'r fersiwn printiedig sydd mor lliwgar a darllen rhan o'r cynnwys cyn troi at y CD a gwrando. Fel esiampl o werth y CD inni, ystyriwch mor hawdd yw gwrando ar Bethan Dwyfor yn darllen yr erthygl ardderchog yn y gyfres 'Cnoi Cil' gan Gwyndaf Roberts yn y rhifyn diwethaf (216, Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019) o'i gymharu â'r fersiwn printiedig gyda'r print mân gwyn ar bapur du. Mae'r fersiwn print o'r erthygl hon yn anodd iawn i mi ei ddarllen, ac mae'n debyg fod hyn yn wir am nifer o bobl eraill.

Fel Llywydd y Gymdeithas Hanes a golygydd ein papur hanes hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iawn i olygyddion y *Gwyliedydd* am drefnu i bob CD hyd yma gynnwys ar y diwedd erthygl o *Bathafarn Bach*.

# Deled dy Deyrnas 2019


*gan Bet Holmes*

Bydd menter *Deled dy Deyrnas*, sydd yn ein hannog i weddïo am dwf yn yr eglwys, yn digwydd unwaith eto eleni rhwng y Dyrchafael, 30 Mai, a'r Sulgwyn sef 9 Mehefin. Y llynedd bu digwyddiadau ledled y byd mewn llawer o wahanol ieithoedd. Cymerwyd rhan gan filiynau o Gristnogion o 65 o enwadau a thraddodiadau, mewn dros 114 o wledydd o Dde Swdan i Dde Corea, o Awstralia i Awstria!

Mae'r adnoddau ar gael mewn 10 o ieithoedd erbyn hyn (Arabeg ac Wrdw yn newydd ar gyfer 2019) ac maent wedi denu llawer o sylw, gyda'r fideos yn cael eu gweld dros 3 miliwn o weithiau. Yma yng Nghymru, cafodd y llyfryn "*Naw Diwrnod o Weddi – Disgwyl mewn Rhyfeddod*" ei ddefnyddio gan lawer o aelodau Synod Cymru, ac mae'n hyfryd cael dweud y bydd casgliad o syniadau gweddi a myfyrdod newydd ar gael eleni. Bydd adnoddau Cymraeg ar gyfer oedfaon i'w lawrlwytho hefyd.

**Gweddi Deled dy Deyrnas:** Dduw Hollalluog, mae dy Fab a esgynnodd wedi'n hanfon allan i'r byd i bregethu newyddion da dy deyrnas: ysbrydola ni â'th Ysbryd a llanw ein calonnau â thân dy gariad, fel y bydd pawb sy'n clywed dy Air yn cael ei dynnu atat ti, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

# cartŵn



# Thema Bywyd Ysbrydol: Cydgerddded

## *gan y Chwaer Eluned Williams*

Hoffwn ddweud yn gyntaf mai braint fu cael bod yn un o'r grŵp bach a ddewisodd astudio Thema Bywyd Ysbrydol, yn deillio o Adolygiad Bywyd Synod Cymru y llynedd. Yn bersonol teimlaf fod bywyd ysbrydol yn rhan o fywyd pob unigolyn waeth beth fo ei hil, cefndir, credo neu ddiffyg credo, oherwydd plant Duw ydym ni oll.

Rhai adnodau o Philipiaid 1 a 2:

*Yr wyf am i chwi wybod, gyfeillion, fod y pethau a ddigwyddodd i mi wedi troi, yn hytrach, yn foddion i hyrwyddo'r Efengyl...fy nghyfeillion annwyl, fel y buoch bob amser yn ufudd, felly yn awr, nid yn unig fel pe bawn yn bresennol ond yn fwy o lawer gan fy mod yn absennol...eich bod yn sefyll yn gadarn, yn un o ran ysbryd, gan gydymdrechu yn unfryd dros ffydd yr Efengyl.*

*Felly os oes gennych yng Nghrist unrhyw symbyliad, unrhyw apêl o du cariad, unrhyw gymdeithas trwy'r Ysbryd, os oes unrhyw gynhesrwydd a thosturi, cyflawnwch fy llawenydd trwy fod o'r un meddwl, a'r un cariad gennych at eich gilydd, yn unfryd ac unfarn.*

Drwy fy ngwaith yn cydgerddded â phlant a phobl ifanc, datblygodd fy mywyd ysbrydol mewn ffyrdd nad oeddwn yn eu disgwyl, a doeddwn i ddim chwaith bob tro yn fodlon mynd i ble roeddwn yn cael fy arwain. Ond yn y bôn, nid oedd dewis. Os am geisio cerdded yn eu hesgidiau hwy. Dysgais os oedd iachâd i ddod i'r rhai oedd wedi dioddef trais, poen erchyll, gwrthodiad a mwy, fod angen iddynt drosglwyddo'r baich i rywun er mwyn iddynt gael eu rhyddhau i ddatblygu a symud ymlaen o'r profiadau erchyll. Onid dyna beth a wnaeth yr Iesu drosom ni?

Yn ein byd heddiw mae cymaint o dristwch a dioddef; pobl gyda salwch meddwl, pobl ansefydlog a digartref, ffoaduriaid yn mentro'r môr creulon. Digwyddiadau dieithr tu hwnt i'n profiad a'n deall yn ein milltir sgwâr ni, ond brodyr a chwiorydd ydym yng Nghrist. Sut y daw rhyddhad meddwl ac iachâd i unigolion, teuluoedd, cymunedau? Sut y gwelwn wellhad ym myd gwleidyddiaeth? Beth ddigwyddodd i safonau a pharch, y ddawn i wrando a chlywed, a'r gallu i fod yn gyfeillion er inni fod o feddylfryd gwahanol? Credaf fod rhaid i ni geisio cydgerddded yn agosach; efallai yn esgidiau anghyfforddus rhywun arall a chario beichiau ein gilydd.

Darllenais erthygl yn ddiweddar gan Karen Gibson, arweinydd y *Kingdom Choir*, a gafodd gyhoeddusrwydd wedi ei datganiad ym mhriodas y Tywysog Harry a Meghan Markle. Wrth sôn am y nifer fawr o ddilynwyr sydd gan y côr yn awr, dywedodd fod pobl yn troi at ganu *Gospel* am gysur yn eu hofn a'u hansicrwydd. Pobl mewn argyfwng ydynt, meddai hi, yn troi at ganeuon sy'n deillio o'r Efengyl. Efallai ein bod fel cenedl ar goll?

- Beth sy'n eich cysuro chi yn ein hawyrgylch ansicr bresennol?
- Sut y gallwn nerthu ein gilydd?
- Ydych chi'n ddigon ddewr i fynegi'ch ofnau a'ch pryderon dyfnaf wrth eraill? Beth allwn ni yn ein heglwysi ei wneud i helpu eraill i fynegi'u hofnau a'u pryderon?
- Mae gan bobl eraill brofiadau ac anghenion gwahanol iawn i ni a gall fod yn anghyfforddus cerdded yn eu hesgidiau; ydych chi'n fodlon dibynnu ar eraill i weithredu ar eich rhan?





# O'r **Pen Yma**

gan **Angharad Tomos**

Bûm mewn angladd yn ddiweddar, a hwnnw yn un anferth. Roedd y capel bach dan ei sang, a'r festri hithau, a'r gofod o amgylch y capel. Roedd y gweddill ohonom wedi gorlifo ar y stryd, a dwi'n falch mod i'n perthyn i gymuned sy'n dal i heidio i dalu'r gymwynas olaf. Eto, pan ddaeth hi'n amser canu'r emyn, tawel oedd y rhai tu allan. Roedd y rhai o fewn y muriau yn morio canu, a rhyfedd oedd bod ar y tu allan yn ddistaw. Wn i ddim beth oedd y rheswm, p'un ai oedd y genhedlaeth iau yn anghyfarwydd â'r geiriau neu'r alaw, neu'r ddau. Falle fod pobl yn swil o ymuno yn y canu, a hwythau tu allan i furiau'r lle o addoliad. Ond roedd yn brofiad chwithig.

I mi, mae canu yn gallu bod yn falm i'r enaid. Rydw i wedi crybwyll yn y golofn hon o'r blaen sut roedd yr hanner dwsin yng Nghapel Ty'n Lôn wrth eu boddau yn canu, ac yn cadw'r hen emynau yn fyw. Bellach, mae'r capel wedi cau, a'r canu wedi peidio.

Mae rhai wedi awgrymu cadw'r emynau yn fyw drwy ddod ynghyd i ganu, a rydw i wedi bod yn amheus o'r awgrym. Nid pethau i'w cadw'n fyw er mwyn traddodiad mohonynt. Eto, os gall rhywun ddod i adnabod Crist trwy ganu, fedr hynny ddim bod yn beth drwg na fedr? Mae cryno ddisg Lleuwen Steffan, *Gwn Glân a Beibl Budr* wedi bod yn hynod boblogaidd ers ei ryddhau Dolig dwytha. Ynddo, mae sawl emyn, hen a modern. Ac nid Lleuwen mo'r unig gantores i droi at ffurf yr emyn.

Canwch nhw. Dysgwn nhw ar ein cof. Canwch nhw ar eich pen eich hun, efo ffrindiau neu yn rhan o gôr neu gynulleidfa. Ac ystyriwn yr hyn a ganwn. Caneuon gan wragedd yw dwy o'm ffefrynnau – carol oesol Jane Ellis, 'O deued pob Cristion' ac emyn Ann Griffiths, 'Dyma babell y cyfarfod'. Mae perlau ynddynt:

'daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd
er symud ein penyd a'n pwn;
.... ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
a throsto Ef gweithiwn i gyd.'

neu eiriau Ann,
'Dyma noddfa i lofruddion,
Dyma i gleifion Feddyg rhad;
Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneud ei nyth...'

Mae dau can mlynedd wedi mynd ers eu sgwennu, eto maent yr un mor berthnasol heddiw ag unrhyw beth gewch chi yn y llyfrau 'self-help' cyfoes. Mae ein hemynau yn wir drysorfa.

# Crwydro Llefydd Sanctaidd – Durham

## *gan Bet Holmes*



Y llynedd cefais y fraint o dreulio penwythnos yn Durham, un o safleoedd treftadaeth byd UNESCO. Mae'n lle diddorol iawn, ac uchafbwynt y ddinas yw'r Eglwys Gadeiriol. Mae'n uchafbwynt yn llythrennol, yn sefyll ar graig uwchben yr afon Wear, ac mae pawb yn gallu ei gweld o bell. A dyna oedd awgrym y Normaniaid pan wnaethant adeiladu'r eglwys nôl yn amser Gwilym y Concwerwr, dan y Tywysog-Esgob Gwilym o Calais, fel rhan o lys sydd yn cynnwys castell enfawr hefyd, yn union ochr yn ochr â'r gadeirlan. Roedd y ddau adeilad yno i ddangos grym y rheolwyr newydd, ac i brofi eu bod nhw'n bwriadu aros yno am amser maith. Ai i fygwth y werin bobl? Neu er gogoniant i Dduw? Ateb un o'r staff oedd yr ail, wrth gwrs, ond dydw i ddim mor siŵr.

Beth bynnag am hynny, mae'r eglwys yn sefyll yma ers naw canrif. Nid heb newidiadau: mae llyfryn gyda fi sy'n sôn am gelf newydd yn perthyn i'r cyfnod rhwng diwedd yr Ail Ryfel Byd a 2010. Mae sawl cyfrwng i'w weld: cerfluniau, ffenestri, peintiadau, brodwaith a batic, pob un ohonynt yn ailadrodd rhan o stori Crist a hanes yr ardal.

P'un yw fy ffefryn? Hoffais Ffenestr y Gweddnewidiad gan Tom Denny (2010), sydd yn dangos nid yn unig Iesu, Moses ac Elias a'r disgyblion Pedr, Iago ac Ioan, ond hefyd iacháu'r bachgen epileptig, dau o bobl yn rhedeg yng nghwmni eryr (*Salm 103:5, Ef sy'n adnewyddu fy ieuenctid fel eryr*), Cuthbert (nawddsant Northymbria), a'r eglwys gadeiriol ei hunan gyda phererinion yn cerdded ati, yn eu plith yr Esgob Michael Ramsey. Mae'n rhaid edrych yn garcus i weld y ffigurau bychain, achos argraff penna'r ffenest o bell yw golau llachar sy'n cynrychioli gogoniant a nerth Duw yn gweddnewid Iesu fel maent yn gallu trawsnewid ein bywydau ninnau.

Rhywbeth trist iawn yw cofeb torwyr glo yr ardal: fel yn Ne Cymru, roedd llawer o bobl yn gweithio dan y ddaear a hyd yn oed dan y môr, a rhai ohonynt yn colli eu bywydau: *"blood and bone is the price of coal"* medd y gân. Bron pob blwyddyn roedd dynion a bechgyn yn cael eu lladd tan y 1990au, pan gaewyd y pyllau glo. Ac roedd hynny yn rhywbeth trist hefyd oherwydd y diweithdra a ddaeth yn ei sgil.

Tu cefn i brif allor y gadeirlan y mae bedd Cuthbert, a drosto fe mae canopi lliwgar iawn gan Syr Ninian Comper. Pob un â'i hoff bethau, wrth gwrs, ond dwi'n cytuno â John Betjeman, a ddywedodd am Comper: "*his ecclesiastical tastes are rococo... he is perfectly satisfied as long as gold leaf is heaped on everywhere"*. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng y canopi a bedd syml Cuthbert yn syfrdanol; maen yn unig sydd yn gorwedd dros gorff y sant, gyda'i enw wedi ei gerfio arno mewn ffont blaen, a lle wrth ei ymyl ar gyfer penlinio a gweddïo. Ac mae hynny'n gwbl addas achos bywyd syml iawn oedd gan Cuthbert, oedd wedi treulio blynyddoedd fel meudwy ar ynys fach Inner Farne.

Rhaid cyfaddef fod yn well 'da fi bethau syml na haenau aur Comper, ac un o'm haddunedau ar gyfer 2019 yw ceisio symleiddio fy mywyd er mwyn rhoi mwy o le i Dduw. A allaf wneud fy ffydd mor gadarn â chadeirlan Durham, tybed?

# *Lleufer Dyn Yw Llyfr Da*

## *gan y Parchedig J. Bryn Jones*

Ers pan oeddwn yn blentyn ifanc, bûm yn hoff iawn o ddarllen. Yn ogystal â'r papurau newydd a ddeuai i'm cartref, roeddwn i a'm brodyr yn derbyn gwahanol gylchgronau, neu 'comics' fel y'u gelwir. Yn anffodus, dydy'r cof ddim yn ddigon da i gofio'r enwau yn fanwl, ond un cymeriad oedd 'Rupert the Bear', un hoffus oedd yn medru gwneud pob math o gampau, yn enwedig yn y gaeaf. Treuliais oriau difyr yn darllen am ei anturiaethau ef a'i gyfeillion.

Pan euthum i'r ysgol, parhaodd yr awydd i ddarllen a sgwennu. Roedd un bachgen a chanddo lawysgrif arbennig o dda, ac roedd cystadleuaeth rhyngom i weld pwy oedd y gorau. Rwy'n parhau i ymdrechu i sgwennu'n daclus, er fy mod ar adegau yn methu cyrraedd y nod.

Pan gefais fy nerbyn i Goleg Cliff fel myfyriwr ac ymgeisydd am Weinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd, roedd angen ymdrech arbennig – nid yn unig i wrando ar yr hyn oedd y darlithwyr yn ei ddweud, ond hefyd i gyfleu'r nodiadau hynny mewn ffurf ddealladwy ar gyfer eu marcio ymhellach mlaen! Roedd hyn yn arbennig o bwysig wrth wrando ar ambell ddarlithydd yng Ngholeg Handsworth, Birmingham, yn tynnu sylw at lyfrau a fyddai'n werth eu prynu – a dwi'n dal i fod yn berchen ar nifer ohonynt, megis rhai o lyfrau'r diwinydd a'r Cymro Dr C.H. Dodd oedd yn awdurdod ar yr Apostol Paul.

Gwelais yn ddiweddar raglen am Nepal yn dangos ôl y ddaeargryn fawr a ddigwyddodd yno beth amser yn ôl erbyn hyn. Chwalwyd tai ac adeiladau eraill a disgynnodd y camera ar gwpwrdd mewn tŷ, ac ynddo lyfrau – gan obeithio bod y Beibl yn eu plith. Mae'n werth cofnodi bod yno Gristnogion ac mae trefniant ar ffurf partneriaeth rhwng yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yn Nepal a elwir yn 'Freedom to Share'. Byddaf yn derbyn gohebiaeth gan Gymdeithas y Beibl sy'n sôn am feiblau a ddosberthir yng ngwledydd y Dwyrain Canol ac yn gofyn am gymorth ariannol i gefnogi'r fenter. Mae'n bwysig cefnogi mentrau fel hyn mewn gwledydd lle mae awydd i ddysgu mwy am Gristnogaeth.

Bu'r comic cyntaf y cyfeiriais ato yn gyfrwng amhrisiadwy i greu'r awydd ynof i ddysgu a darganfod...ac mae'r awydd hwnnw wedi parhau hyd heddiw. Erbyn hyn, mae technoleg wedi newid y ffordd rydyn ni'n sgwennu, yn darllen ac yn cyfathrebu â'n gilydd. Mae'r teipiadur syml wedi cael ei ddisodli gan gyfrifiadur, sy'n trefnu popeth yn ein bywydau, ond nid oes dim yn rhoi mwy o bleser imi na gafael ac ymgolli mewn llyfr a'i fwynhau o'r dechrau i'r diwedd!

# Pererindod i Santiago de Compostela

## *gan y Parchedig Martin Evans-Jones*




Tros gyfnod o 10 diwrnod yn ystod mis Medi diwethaf aeth Gwen a minnau ar bererindod i Santiago de Compostela gan gerdded o Oporto ym Mhortiwgal i'r trwyn yng ngogledd-orllewin Sbaen, taith o ryw 80 o filltiroedd, gan gerdded tua 15 milltir y dydd. Roedd y tywydd yn sych a phoeth ac roedd yn bleser troedio ar hyd ffordd Rufeinig gan mwyaf, trwy ardal ffrwythlon a choedwigog, heibio pentrefi traddodiadol a chroesawgar, gan gyfarfod cyd-bererinion o bob cyfandir ar y ffordd oedd oll yn ein hybu ymlaen.

Pam mynd ar bererindod? Onid pererindod yw bywyd ei hun i bob un ohonom, i geisio dod o hyd i Dduw? Ond nid dyna oedd cymhelliad pawb o bell ffordd. Mae rhai eisiau darganfod pwrpas newydd mewn bywyd, ar ôl colli partner neu gariad efallai; rhai wedi bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol neu gamblo ac eisiau torri'r gadwyn sydd wedi eu carcharu am yn hir. Mae rhai eisiau dod i gredu fod yna ysbryd cariadlon yn bodoli yng ngwaelod y bydysawd ac yn disgwyl am weledigaeth. Beth bynnag yw'r cymhelliad, mae'r mwynhad o gerdded yn yr awyr iach, ac arafu tipyn ar eich bywyd rhuthredig, a chymryd pleser mewn natur, a gwneud ar ychydig am gyfnod, gyda dim ond pac ar eich cefn, a ffon gerdded fel y disgyblion cyntaf yn eich llaw, yn ddigon o nefoedd ynddo'i hun.

Ond pam Santiago de Compostela? Credir fod gweddillion corff Sant Iago, brawd Ioan, ac un o'r Deuddeg, wedi eu cludo i eglwys Santiago. Mae traddodiad yn dweud ei fod wedi efengylu yn Sbaen cyn dychwelyd i Jerwsalem lle cafodd ei ferthyru gan y brenin Herod (Actau 12.2). Pan oddiweddwyd Sbaen gan y Moslemiaid yn y seithfed ganrif ar ôl Crist, dim ond y gornel ogledd-orllewinol o gwmpas Santiago oedd dal yn rhydd. Ymddangosodd Sant Iago mewn breuddwyd i'r Ymerawdwr Siarlymaen a'i herio i yrru'r Moslemiaid allan o Sbaen. A dyna ddigwyddodd. Mae'n eironig, felly, i ni basio cerfluniau ar y ffordd, o Sant Iago ar gefn ei geffyl yn trywanu Moslemiaid yn ddidrugaredd a ninnau i fod yn chwennych byd heddychlon.

Beth bynnag am hynny, sefydlwyd Santiago de Compostela yn y Canol Oesoedd fel y drydedd bererindod bwysicaf ar ôl Jerwsalem a Rhufain. Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, ein cyfnod ni heddiw, gwelwyd adnewyddiad rhyfeddol ar y bererindod hon, gyda miliynau o bererinion o bob math, o bob crefydd neu ddim, o bob lliw, oed, a rhyw, yn tyrru i'r eglwys gadeiriol, a ninnau yn eu plith. Pam tybed? Efallai, mewn cyfnod mor sigledig â hwn sy'n llawn ofnau a dioddefaint, wedi ei rwygo gan ryfeloedd, a bygythiad i oroesiad y blaned ei hun, fod pobl yn chwilio am rywbeth a ddaw â heddwch i'w bywydau cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Peth braf oedd cyrraedd Santiago ar fore Sul, yn sŵn clychau'r eglwys, ac ymuno â'r dyrfa o bererinion lluddedig yn y gwasanaeth Cymun amlieithog o dan y cerflun aur o Sant Iago, a gwylio'r llestr mawr o thus, oedd yn hongian ar gortyn o'r nenfwd, yn cael ei yrru gan tua saith o offeiriaid i fyny ac i lawr y gangell, yn taenu ei bersawr hyfryd drosom i gyd. Profiad bythgofiadwy a diweddglo hapus i'n pererindod fach ni.

---

**SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO**

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*, tuag at Gweithredu dros Blant:
Ebeneser, Dolgellau – tiwbiau Smarties **£135.40**
Horeb, Croesoswallt **£100.00**
Bathafarn – Gwasanaeth. Nadolig **£80.00**
Llety'r Bugail - tiwb Smarties **£12.60**
Amrywiol **£7.40**

Anfonwyd cyfanswm o **£335.40** yn enw Synod Cymru.

Unwaith eto, diolch o galon i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at yr ymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig. Mae'r prosiectau mor ddiolchgar amdanynt. Fel y gwelwch o'r llun roedd eich haelioni yn anhygoel. Aethpwyd â dau lond car o anrhegion, un bag 'jumbo' yn syth i'r swyddfa yn y Rhyl ac yna bocs mawr o roddion a ddaeth wedi'r "dyddiad cau".





# TUDALEN Y PLANT

Dywedodd Iesu stori am ffermwr aeth allan i hau ei had.
**(Mathew 13:1-8)**


Pan oedd Iesu Grist wrth ymyl Llyn Galilea, daeth llawer o bobl a phlant i wrando arno. Eisteddodd mewn cwch, a phawb yn gwrando ar lan y llyn.



**Wrth ddilyn Iesu bydd ein bywydau fel y pridd da lle mae pethau da yn tyfu.**




Syrthiodd rhai hadau ar y llwybr. Daeth yr adar a'u bwyta.



Syrthiodd rhai hadau ar dir creigiog. Doedden nhw ddim yn gallu tyfu'n dda yno.




Syrthiodd rhai hadau yng nghanol drain. Cafodd yr hadau hynny eu tagu gan y drain.



Ond tyfodd rhai hadau ar bridd da a chafodd y ffermwr gnwd da.

**Mae pob sgwâr, a phob rhes, i fod i gynnwys un o bob un o'r pedwar llun. Fedri di roi'r rhai sydd ar goll i mewn?**



[Lluniau: Sue Bentley, Free Bible Images]